Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llanfair-ym-Muallt

Ffordd yr Ysbyty
Llanfair-ym-Muallt
Powys
LD2 3GA

Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Llanfair-ym-Muallt

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Gynradd Llanfair-ym-Muallt |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Powys |
| Iaith y darparwr | Cymraeg a Saesneg |
| Categori’r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | Ffrwd ddeuol |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 238 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 206 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 21.7%) | 11.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 9.2%) | 15.5% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 18.9% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Partner arweiniol mewn addysg gychwynnol athrawon | No |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/01/2016 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/03/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 01/12/2025 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned wresog ac anogol lle mae disgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Mae'r pennaeth ac arweinwyr eraill yn arwain yr ysgol yn effeithiol. At ei gilydd, mae arweinwyr yn nodi'n briodol pa agweddau ar waith yr ysgol sydd angen eu gwella a'r camau sydd angen eu cymryd i gyflawni hyn. Maent yn ymateb yn dda i safbwyntiau staff, rhieni a disgyblion, ac mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at yr awyrgylch cynhwysol sy'n bodoli rhwng yr ysgol a'r gymuned ehangach. Mae llywodraethwyr yn chwarae rôl weithgar a gwybodus, gan gyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygiad parhaus yr ysgol. Mae'r cyfeiriad cryf hwn yn helpu creu ethos cynhwysol lle mae staff yn gweithio'n hyderus i hyrwyddo lles disgyblion a gwella safonau mewn dysgu.

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a difyr sy'n adlewyrchu'r ardal leol tra'n ehangu dealltwriaeth disgyblion o'r byd y tu hwnt i'w cymuned. Mae staff yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu disgyblion i fod yn unigolion ystyriol a chyfrifol sy'n gwerthfawrogi eu treftadaeth ac yn dangos parch am amrywiaeth. Caiff cyfleoedd sy'n cefnogi ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion eu gweu trwy brofiadau dysgu, gan helpu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu empathi a myfyrio'n ofalus ar eu gwerthoedd.

Mae llawer o ddisgyblion, yn cynnwys y rhai yn y 'Dosbarth Cymorth Dysgu Ardal', yn gwneud cynnydd cryf mewn llythrennedd a rhifedd. Maent yn elwa ar amgylchedd sy'n gyfoethog o ran iaith lle caiff geirfa ei modelu'n barhaus. Wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, maent yn dod yn siaradwyr hyderus ac yn ddarllenwyr brwdfrydig, gan ddefnyddio'u gwybodaeth gynyddol am wahanol fathau o destunau i ysgrifennu ag aeddfedrwydd. Mae eu medrau mathemategol yn datblygu'n dda hefyd, ac mae disgyblion hŷn yn gallu esbonio'u meddwl yn glir a chymhwyso'u medrau rhifedd mewn sefyllfaoedd ystyrlon ar draws y cwricwlwm.

Mae athrawon yn cynllunio'n greadigol ac yn cydweithio'n agos i sicrhau bod y dysgu'n adeiladu'n raddol. Maent yn cynllunio gweithgareddau sydd o ddiddordeb i ddisgyblion, ac yn eu hannog i weithio ag annibyniaeth gynyddol. Fodd bynang, mae cyfle i ddisgyblion gynllunio agweddau ar eu dysgu eu hunain yn llai datblygedig. Caiff darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ei threfnu'n effeithiol, sy'n sicrhau bod llawer ohonynt yn gwneud cynnydd llwyddiannus o'u mannau cychwyn unigol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Cryfhau cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am eu dysgu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae’r ysgol yn gymuned ofalgar a chroesawgar. Mae’r pennaeth wedi sefydlu diwylliant pwrpasol a myfyriol a chyfeiriad strategol clir. Mae hyn yn hyrwyddo gweledigaeth ar y cyd sy’n uno staff, disgyblion, rhieni a’r gymuned ehangach i gefnogi nodau’r ysgol. O dan arweinyddiaeth gref ac effeithiol y pennaeth, mae gan staff ddisgwyliadau uchel ac maent yn gweithio’n fedrus i greu amgylchedd cynhwysol i feithrin lles disgyblion a datblygu dysgu disgyblion.

Mae staff yn gweithio gyda’i gilydd yn llwyddiannus i ddarparu cwricwlwm eang ac ysgogol sy’n dathlu treftadaeth unigryw’r ardal, yn ogystal â datblygu dealltwriaeth disgyblion o amrywiaeth o fewn Cymru, ac yn y byd ehangach, fel ei gilydd. Maent yn cyfleu gweledigaeth i ddatblygu disgyblion i fod yn ddinasyddion egwyddorol sy’n falch o’u hanes, eu diwylliant a’r Gymraeg. Mae’r cwricwlwm yn adeiladu ar wybodaeth, medrau a dealltwriaeth flaenorol disgyblion yn effeithiol. At ei gilydd, mae’r ysgol yn darparu ystod dda o gyfleoedd pwrpasol sy’n cefnogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Mae hyn yn helpu’r rhan fwyaf o ddisgyblion i fyfyrio’n ystyriol ar eu credoau a’u gwerthoedd eu hunain. Maent yn dangos empathi tuag at bobl eraill ac yn ymgysylltu’n barchus â gwahanol ddiwylliannau a safbwyntiau.

Mae llawer o ddisgyblion, yn cynnwys y rhai yn y ‘Dosbarth Cymorth Maes Dysgu’ yn gwneud cynnydd da â’u medrau llythrennedd a mathemategol. Maent yn adeiladu ar eu medrau’n raddol ac yn defnyddio’r medrau hyn yn dda i gefnogi eu dysgu ar draws y cwricwlwm. Mae’r ysgol yn darparu amgylchedd sy’n gyfoethog o ran llenyddiaeth. Mae staff yn modelu geirfa yn gysylltiedig â thestun ac iaith yn gysylltiedig â gwahanol fathau o destun yn dda. Mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn hyderus am eu gwaith a’u profiadau dysgu gan ddefnyddio ystod gynyddol o eirfa berthnasol. Mae diwylliant darllen cadarnhaol yr ysgol yn meithrin cariad at ddarllen. Mae staff yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu ystod o strategaethau darllen gan sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddarllenwyr rhugl. Mae llawer o ddisgyblion yn deall nodweddion allweddol gwahanol destunau ac yn defnyddio’r wybodaeth hon yn fedrus i ysgrifennu’n aeddfed at ystod o ddibenion. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn cynnal eu syniadau’n dda ac yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig o ansawdd uchel.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn y dosbarthiadau dysgu sylfaen yn drylwyr yn eu hymagwedd at gefnogi anghenion iaith gynnar disgyblion yn Gymraeg a Saesneg. Yn y ffrwd Gymraeg, mae staff yn adeiladu ar y gwaith hwn yn llwyddiannus wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn hyderus, yn datblygu ystod eang o eirfa a’i defnyddio’n fedrus mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Yn y ffrwd Saesneg, mae athrawon yn cynllunio sesiynau rheolaidd i ddisgyblion ddysgu

patrymau Cymraeg, a'u galw i gof, ac mewn ychydig o achosion, mae staff yn dechrau defnyddio ymadroddion Cymraeg yn ystod y dydd yn briodol. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos agwedd gadarnhaol at ddysgu Cymraeg. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae cyfleoedd cyfyngedig i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau llafaredd Cymraeg y tu allan i sesiynau ffurfiol, ac mae hyn yn effeithio ar allu disgyblion i siarad Cymraeg â hyder.

Ar draws yr ysgol, o ganlyniad i weithgareddau wedi'u cynllunio'n dda a ddarperir gan athrawon, mae medrau digidol a chreadigol disgyblion yn datblygu'n dda. Yn nosbarthiadau'r disgyblion iau, mae disgyblion yn defnyddio'r llwyfan yn yr awyr agored yn effeithiol i berfformio'u gwaith, ac erbyn i ddisgyblion gyrraedd Blwyddyn 6, maent yn defnyddio ystod o feddalwedd ddigidol i gyflwyno a dehongli data yn llwyddiannus.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau mathemategol ac yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae disgyblion iau yn ennill dealltwriaeth gadarn o rif, mesur a siâp. Mae athrawon yn adeiladu ar y wybodaeth hon yn dda wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Maent yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm ar lefel briodol, sy'n cefnogi datblygiad eu medrau rhesymu a datrys problemau yn briodol. O ganlyniad, erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn esbonio'r strategaethau y maent yn eu defnyddio yn hyderus, yn cyfiawnhau eu dewisiadau, ac yn addasu eu dulliau, pan fydd angen.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael ei chydlynu'n effeithiol. Mae staff yn darparu targedau a gweithgareddau dysgu pwrpasol i ddisgyblion sy'n diwallu eu hanghenion yn dda. Maent yn adolygu cynnydd disgyblion yn rheolaidd ac yn gwneud newidiadau i'w cymorth, pan fydd angen. Mae hyn yn galluogi llawer o ddisgyblion ag ADY i wneud cynnydd addas o'u mannau cychwyn gwahanol.

Caiff y 'Dosbarth Cymorth Maes Dysgu' ei arwain yn effeithiol gan arweinwyr ysgol sy'n meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'i gryfderau a'i feysydd i'w datblygu. Maent yn gwerthuso'r ddarpariaeth yn briodol ac yn cynllunio cyfleoedd datblygiad proffesiynol gwerthfawr a pherthnasol ar gyfer staff. Mae disgyblion sy'n mynychu'r dosbarth arbenigol yn ymgysylltu'n dda â'u cyfoedion a staff. Maent yn gwrtais ac yn gweithio'n eithriadol o effeithiol mewn grwpiau bach ac yn unigol, lle bo'n briodol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn tuag at eu targedau unigol. Dros gyfnod a gyda chymorth, maent yn magu hyder ac mae medrau cyfathrebu'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda.

Ar draws yr ysgol, mae cysondeb clir mewn dulliau addysgu ac mae athrawon yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i sicrhau bod dysgu'n digwydd yn raddol o fewn blynyddoedd, ac ar eu traws. Mae athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u hanghenion a'u diddordebau. At ei gilydd, mae athrawon yn

sicrhau bod dosbarthiadau'n cael eu trefnu'n dda ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu chwilfrydedd trwy eu dysgu a'u chwarae. Maent yn darparu cyfleoedd mynych i ddisgyblion ddefnyddio ardaloedd yn yr awyr agored yn bwrpasol i ddatblygu eu medrau corfforol a chreadigol. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau cyffrous i ddisgyblion gymhwyso'u medrau a gweithio'n annibynnol. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd i ddisgyblion gynllunio'u dysgu a gwneud dewisiadau am beth maent yn ei ddysgu, a sut, yn llai datblygedig. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n bwrpasol, yn adeiladu ar ddysgu blaenorol, ac yn darparu lefel briodol o her i gynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd mewn medrau. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio cwestiynau sy'n procio'r meddwl i fynd i'r afael â chamdybiaethau disgyblion a dyfnhau eu dysgu. Maent yn darparu adborth effeithiol sy'n helpu llawer o ddisgyblion i wella'u gwaith.

Mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel ac yn gwerthuso cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu yn drylwyr. Maent yn gweithredu prosesau gwella manwl a rheolaidd sy'n arwain at welliannau cynaledig dros gyfnod. Er enghraifft, mae datblygu darpariaeth 'Y Nyth' i gefnogi lles disgyblion yn galluogi disgyblion i elwa ar gymorth gwerthfawr. Mae llywodraethwyr yr ysgol yn wybodus ac yn gefnogol i'r ysgol. Maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau monitro, yn dod ag ystod o wybodaeth a phrofiad i'w cyfrifoldebau ac yn meddu ar ddealltwriaeth dda o weithgareddau a chynnydd yr ysgol.

Mae diwylliant effeithiol o fyfyrio a gwelliant parhaus wedi cael ei sefydlu yn yr ysgol. Mae staff yn arwain ar feysydd y cwricwlwm, gan fyfyrio a chwilio am gyfleoedd ar gyfer gwella yn rheolaidd. Mae dysgu proffesiynol yn cefnogi blaenoriaethau gwella presennol yr ysgol yn bwrpasol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Codwyd pryder ynghylch rheoli'r safle yn ystod yr arolygiad, ac mae'r awdurdod lleol wedi cael gwybod.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/02/2026